This document is available in English *(Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg)*

# AECOM: CDLlN Torfaen - Crynodeb Gweithredol o Adroddiad Cwmpasu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
## Gorffennaf 2023

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (CBST) ar gamau cynnar y gwaith o lunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) (2022-2037) yr awdurdod. Bydd y CDLlN yn nodi'r weledigaeth ofodol, amcanion, lefelau a mathau o bolisïau sy’n ymwneud â thwf, materion strategol a rheoli datblygu a fydd yn llywio cynlluniau ar draws y Fwrdeistref. Bydd hefyd yn nodi’r gofynion o ran seilwaith ac yn dyrannu safleoedd i'w datblygu yn y cyfnod y mae’r CDLlN yn ei gwmpasu, yn cynnwys diwallu’r anghenion tai a datblygu economaidd yn Nhorfaen. Penodwyd AECOM i ymgymryd â'r adroddiad i lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) ar gyfer CDLlN Torfaen sy'n cael ei baratoi.

Mae TCBC yn Awdurdod Cymwys fel y'i diffinnir yn Rheoliad 7, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Mae rheoliad 105 yn nodi bod yn ‘*Rhaid i Awdurdod cymwys, cyn penderfynu ymgymryd â chynllun neu brosiect sydd... yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd* [Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu, safle Ramsar, fel mater o bolisi Llywodraeth] *neu safle morol alltraeth Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) … gwblhau asesiad priodol ynghylch goblygiadau’r cynllun neu’r prosiect ar gyfer y safle hwnnw yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safle dan sylw*’. Gelwir y broses hon yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

Mae'r Adroddiad Cwmpasu hwn yn cael ei baratoi i lywio’r ARhC, er nad oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Ei bwrpas yw nodi’r:

- Gofynion cyfreithiol cyfredol (gyda chrynodeb o'r gyfraith achos berthnasol allweddol) a sut y gall y rhain newid o dan ddiwygiadau cynllunio.
- Methodoleg arfaethedig ar gyfer yr ARhC.
- Gwybodaeth am yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Ramsar o fewn ffin Bwrdeistref Sirol Torfaen ac o fewn 15km o'r ffin honno.
- Llwybrau effaith sydd angen eu gwerthuso mewn ARhC yng Nghynllun DLlN Torfaen.
- Asiantaethau / rhanddeiliaid y mae angen iddynt fod yn rhan o'r broses.
- Trosolwg o'r holl Amcanion Cadwraeth, y bygythiadau a'r pwysau presennol y mae safleoedd Ewropeaidd perthnasol yn eu hwynebu.
- Datrysiadau lliniaru strategol sydd eisoes ar waith ar safleoedd Ewropeaidd perthnasol.
- Nodi unrhyw gyfleoedd neu fygythiadau posib y gallai’r opsiynau gofodol ei gael ar y CDLlN o ran datblygu gael ar safleoedd Ewropeaidd.
- Cyfuniad o’r cynlluniau a phrosiectau a fydd yn cael eu cynnwys yn yr ARhC.

Mewn perthynas â'r CDLlN, penderfynwyd bod angen ystyried safleoedd Ewropeaidd o fewn ffin yr awdurdod, a hyd at 15km pellter o’r ffin, ar gyfer y broses sgrinio gychwynnol (gweler Tabl 1).

**Tabl 1 Safleoedd Ewropeaidd perthnasol a'u lleoliad mewn perthynas â Thorfaen**

| Safle Ewropeaidd | Lleoliad |
|---|---|
| ACA Safleoedd Ystlumod Brynbuga | Mae'r SoDdGA agosaf sy'n sail i'r ACA hwn, sef SoDdGA Mynydd Llangatwg, tua 1.4km i'r gogledd o Fwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdod cyffiniol Sir Fynwy. |
| ACA Coetiroedd Cwm Clydach | Wedi'i leoli tua 840m i'r gogledd o Dorfaen yn awdurdod cyffiniol Sir Fynwy. |
| ACA Afon Wysg | Mae'r ACA agosaf yn rhedeg tua 3.5km i'r dwyrain o Fwrdeistref Sirol Torfaen. |
| ACA Glaswelltiroedd Aberbargod | Wedi'i leoli tua 6km i'r gorllewin o Fwrdeistref Sirol Torfaen |
| ACA Coetiroedd Pan y Fâl | Wedi'u lleoli tua 6km i'r gogledd-ddwyrain o Fwrdeistref Sirol Torfaen |
| ACA / AGA / Ramsar Aber Hafren | Mae hwn yn safle morydol helaeth, 6.9km o hyd, i'r de o Dorfaen ac yn ffinio'n uniongyrchol â Chaerdydd a Sir Fynwy. |
| ACA Coed y Cerrig | Wedi'i leoli tua 10km i'r gogledd-ddwyrain o Fwrdeistref Sirol Torfaen |
| ACA Safleoedd ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena | Wedi'u lleoli tua 1.4km i'r gogledd o Fwrdeistref Sirol Torfaen. |
| ACA Coedwig Ffawydd Caerdydd | Mae’r elfen agosaf o’r ACA hwn i Dorfaen, TUA 12.5km i’r de-orllewin, yn awdurdod cyffiniol Caerdydd. |

Wrth fynd ati i ystyried agweddau sensitif y safleoedd, dengys y bydd angen ystyried ystod eang o lwybrau effaith, gan gynnwys y pwysau ar hamdden, ansawdd dŵr, maint / lefel / llif dŵr, cynefinoedd swyddogaethol fyddai’n diflannu, llygredd atmosfferig, sŵn ac aflonyddu gweledol, a chywasgu arfordirol.  Pwysau hamdden yw un o'r pwysau mwyaf blaenllaw ar ACA / AGA / Ramsar Aber Hafren, sydd rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru (Bro Morgannwg, Caerdydd, Sir Fynwy) a Lloegr (e.e. Ardal Stroud).  Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith lliniaru strategol ffurfiol ar waith ar gyfer yr ACA / AGA / Ramsar, er bod sawl awdurdod wedi ymgymryd â gwaith arolygu ymwelwyr i sefydlu dalgylch hamdden craidd ar gyfer yr aber.  Mae data arolwg o wahanol rannau o'r aber yn dangos bod dalgylch 7km safonol yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer y safle, a fyddai'n gosod Torfaen ychydig ar derfyn uchaf y dalgylch hwn.

Fodd bynnag, dengys arolwg ymwelwyr a gynhaliwyd gan AECOM, a ddechreuwyd yn 2020 ac a ailgydiwyd ynddo yn 2022 pan godwyd cyfyngiadau COVID, nad yw'r datblygiad preswyl sy'n dod ymlaen yn Nhorfaen yn dod o fewn y dalgylch hamdden craidd o 7km a nodwyd ar gyfer AGA / Ramsar / ACA Aber Hafren.  Er bod cyfanswm o 5 o drigolion (2.8%) o Dorfaen wedi'u cyfweld yn yr aber, roedd yr un a gafodd ei gyfweld, oedd yn byw agosaf at y safle wedi teithio 8.8km o'i gartref, sydd ymhell y tu hwnt i'r 75ain canradd o ymwelwyr.  Gan gymhwyso'r fethodoleg a dderbynnir yn eang ar gyfer amlinellu dalgylchoedd hamdden, ni ystyrir bod trigolion Torfaen yn cyfrannu'n ystyrlon at effeithiau hamdden yn yr AGA / Ramsar / ACA.  Felly, ni fydd angen lliniaru’r tai y rhagwelir y byddant yn cael eu cyflwyno, o dan CDLlN Torfaen.

Llwybr effaith arall sy'n berthnasol yw llygredd atmosfferig sy'n deillio o ddatblygiad tai a chyflogaeth yn Nhorfaen.  Mae sawl safle Ewropeaidd o fewn ardal yr astudiaeth, sef 15km, yn sensitif i allyriadau amonia ($NH_3$) a dyddodiad nitrogen (N) sy'n deillio o draffig cymudwyr, yn enwedig ACA / AGA Aber Hafren / ACA Ramsar ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd.  Mae potensial i allyriadau sy'n gysylltiedig â thraffig o fewn 200m o nodweddion cymwys sensitif oherwydd y

CDLlN, newid cyfansoddiad ecosystemau mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill.  Mae'n debygol y bydd angen modelu ansawdd aer mewn perthynas â rhai o'r safleoedd Ewropeaidd hyn i ddangos na fydd y CDLlN sy'n datblygu, yn arwain at effeithiau andwyol ar uniondeb y safle.

Gall y CDLlN sy'n datblygu, fanteisio ar y cyfleoedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn, naill ai trwy ei ddefnyddio i lywio dosbarthiad gofodol y datblygiad, neu drwy gyfuno atebion lliniaru â thargedau bioamrywiaeth eraill sydd angen eu cyflawni:

- Fel rhan o broses ddatblygu'r CDLlN, bydd angen ystyried lle y gall cyflawni twf preswyl achosi aflonyddu /sathru ychwanegol yn y dyfodol.  Ni ellir cynnal y dadansoddiad hwn yn y Cam Cwmpasu, ond mi fydd yn berthnasol wrth i safleoedd penodol gael eu dyrannu a symiau twf ddod i'r amlwg yn nes ymlaen yn y broses gynllunio.
- Wrth leihau'r angen am fesurau lliniaru posibl sy'n gysylltiedig â'r CDLlN byddai'n hwyluso'r gallu i'w gyflawni.  Er enghraifft, efallai y bydd CBST yn dymuno archwilio'r opsiwn o gyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf preswyl tua gorllewin yr awdurdod ac i ffwrdd o Lantarnam.  Byddai hyn yn lleihau'r baich lliniaru (e.e. SANG a mesurau rheoli mynediad ar y safle) sy'n gysylltiedig â'r CDLlN sy'n datblygu a gwneud y gwaith o ddarparu tai yn fwy fforddiadwy i ddatblygwyr.
- Dylid ystyried newid deddfwriaeth a allai ddod i rym yn ystod y broses CDLlN.  Er enghraifft, byddai modd cydleoli Enillion Net Bioamrywiaeth gorfodol gydag atebion lliniaru SANG i liniaru problemau pwysau hamdden yn ACA / AGA / Ramsar Aber Hafren, ee trwy wella bioamrywiaeth yn sylweddol mewn mannau gwyrdd newydd.  Er enghraifft, mae modd creu parthau mewn Parciau Gwledig i greu buddion o ran bioamrywiaeth a chyfleoedd hamdden.  Ar ben hynny, mae unrhyw ardal fawr a ddarperir at ddibenion Enillion Net yn debygol o gael ei defnyddio'n anffurfiol ar gyfer hamdden oni bai bod camau yn cael eu cymryd i eithrio'r cyhoedd yn gorfforol.  Er mwyn cyflawni cyd-leoli, byddai angen i fannau gwyrdd fod yn ddigon mawr a byddai angen iddynt fodloni meini prawf SANG eraill.  Fel arall, byddai modd darparu mathau eraill o fannau gwyrdd naturiol neu adnoddau hamdden (y cyfeirir atynt hefyd fel prosiectau seilwaith), fel y rhai a ddyfeisiwyd yn wreiddiol ar gyfer *Thames Basin Heaths*.

Pwrpas yr Adroddiad Cwmpasu hwn yw cyflwyno arfarniad o safleoedd Ewropeaidd perthnasol, gwybodaeth gefndir o wahanol lwybrau effaith a nodi ffynonellau o dystiolaeth presennol y gellir eu defnyddio yn y broses sgrinio dilynol ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol (EST) ac Asesiad Priodol (AP).

## Geirfa

**Asesiad Priodol**: Y term a roddir i ail gam manwl proses Asesu Rheoliadau Cynefinoedd. Asesiad sy'n briodol i benderfynu a fydd effaith ar uniondeb safle Ewropeaidd.

**Rhwydwaith Emrallt**: y rhwydwaith o safleoedd bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol a sefydlwyd o dan Gonfensiwn Bern, 1979, a lofnodwyd yn Bern, y Swistir.

**Safleoedd Ewropeaidd**: term anffurfiol am y rhwydwaith o ACA, AGA a safleoedd Ramsar.

**ARhC - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**: y term a roddir yng Nghymru a Lloegr am asesiadau o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd a ddynodwyd drwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd).

**Llwybrau effaith**: Mecanweithiau sy'n galluogi i weithgaredd penodol effeithio ar safle ACA, AGA neu Ramsar penodol fel ansawdd aer, ansawdd dŵr neu bwysau hamdden.

**Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol**: Y term a roddir i gam cyntaf proses Asesu Rheoliadau Cynefinoedd. Archwiliad cychwynnol, lefel uchel cychwynnol o gynllun neu brosiect i benderfynu a oes potensial ar gyfer effeithiau negyddol sylweddol ar safle Ewropeaidd.

**Safle Ramsar**: Safle bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, 1979, a lofnodwyd yn Ramsar, Iran.

**ACA - Ardal Cadwraeth Arbennig**: safle bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol wedi'i ddynodi am ei gynefinoedd neu am ei rhywogaethau heblaw am adar.

**SANG - Man Gwyrdd Naturiol Amgen Addas**: ardaloedd o fannau gwyrdd hamdden naturiol a grëwyd i ddenu ymwelwyr o ardaloedd eraill o dir sy'n sensitif, i ledaenu'r llwyth hamdden.

**Uniondeb safle**: gallu safle Ewropeaidd i gyflawni ei amcanion cadwraeth.

**SGA - Ardal Gwarchodaeth Arbennig**: safle bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol wedi'i ddynodi am fod yn ddiddorol o ran adar.

**SoDdGA - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**: safle bywyd gwyllt o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae pob safle Ewropeaidd ar dir mawr y DU hefyd wedi'i ddynodi'n SoDdGA.